Adran Gwaith a Phensiynau

# Cyflwyniad i **Bensiwn Newydd y Wladwriaeth**

**Hawdd i'w Ddarllen**



Ein cyfeirnod: **NSP1WER 01/22**

# Cynnwys



1




**Cyflwyniad**

Tudalen 4

2




**Pensiynau**

Tudalen 5

3




**Pwy all gael Pensiwn newydd y Wladwriaeth**

Tudalen 8

4




**Darganfyddwch faint y gallech ei gael**

Tudalen 10

# Cynnwys


5




**Help arall ag arian**

Tudalen 11

# 1 Cyflwyniad



Mae **Pensiwn newydd y Wladwriaeth** yn arian y gallech ei gael os ydych wedi cyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth.

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae'r Llywodraeth yn talu Pensiwn newydd y Wladwriaeth i bobl, trwy'r Adran Gwaith a Phensiynau.





Mae'r wybodaeth hon yn dweud wrthych pwy all gael Pensiwn newydd y Wladwriaeth a sut i ddarganfod faint o arian y gallech ei gael.


# 2 Pensiynau



Mae **pensiwn** yn arian i fyw arno pan gyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth.




Wrth gyrraedd oedran pensiwn y Wladwriaeth gallwch barhau i weithio, neu gallwch ddewis ymddeol.




Ymddeoliad (pan fyddwch yn ymddeol) yw pan fyddwch yn gadael eich swydd ac yn stopio gweithio.




Mae pobl fel arfer yn ymddeol pan fyddant yn cyrraedd oedran ymddeol, neu oherwydd iechyd gwael.

Gall pobl ymddeol yn gynnar hefyd, os oes ganddynt ddigon o arian i fyw arno.




Os dewiswch barhau i weithio tu hwnt i'ch oedran Pensiwn y Wladwriaeth, gallwch barhau i hawlio'ch Pensiwn newydd y Wladwriaeth.




Mae yna 3 math o bensiwn:

- Pensiwn preifat
- Pensiwn gweithle
- Pensiwn y Wladwriaeth.




Mae **pensiwn preifat** yn arian rydych wedi'i gynilo neu fuddsoddi ar gyfer pan fyddwch yn ymddeol.



**Pensiwn gweithle** yw arian a delir i mewn i bensiwn gan eich cyflogwr.

Efallai y byddwch yn talu i mewn i bensiwn gweithle hefyd, o'ch cyflog.




Mae **Pensiwn y Wladwriaeth** yn arian y gallech ei gael gan y llywodraeth.

Os gallwch ei gael, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn talu'r arian hwn i chi.

# 3 Pwy all gael Pensiwn newydd y Wladwriaeth




Rhaid i chi fod yn **oedran Pensiwn y Wladwriaeth** i gael Pensiwn newydd y Wladwriaeth.

?

**Esbonio oedran Pensiwn y Wladwriaeth**

Eich **oedran Pensiwn y Wladwriaeth** yw'r oedran ieuengaf y gallwch gael Pensiwn y Wladwriaeth.

I gael mwy o wybodaeth am eich oedran Pensiwn y Wladwriaeth ewch i: www.gov.uk/state-pension-age




Gallwch wneud cais am Bensiwn newydd y Wladwriaeth os ydych:

- Dyn a aned **ar neu ar ôl** 6 Ebrill 1951
- Menyw a aned **ar neu ar ôl** 6 Ebrill 1953




Os gwnaethoch gyrraedd oedran Pensiwn y Wladwriaeth **cyn** 6 Ebrill 2016, cewch **Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth**.




Gallwch wneud cais am Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth os ydych yn:

- dyn a aned **cyn** 6 Ebrill 1951
- menyw a aned **cyn** 6 Ebrill 1953.




Mae Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ar hyn o bryd yn £137.60 yr wythnos.

Mae'r swm hwn yn cynyddu bob blwyddyn.

I gael mwy o wybodaeth am Bensiwn sylfaenol y Wladwriaeth, ewch ix www.gov.uk/pensiwn-sylfaenol-y-wladwriaeth

# 4 Darganfyddwch faint o Bensiwn newydd y Wladwriaeth y gallech ei gael




Os gallwch ei gael, swm **Pensiwn newydd y Wladwriaeth** llawn yw £179.60 yr wythnos.

Gallai'r arian y gallech ei gael fod yn is.

Adran Gwaith a Phensiynau

Gall yr Adran Gwaith a Phensiynau ddweud wrthych faint o Bensiwn newydd y Wladwriaeth y gallech ei gael a phryd y gallwch ei gael.




Gelwir hyn yn **rhagolwg pensiwn**.

Er mwyn cael rhagolwg pensiwn ewch i www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth

# 5 Help arall ag arian




Os ydych yn hawlio Pensiwn y Wladwriaeth a bod gennych **incwm isel** efallai y gallwch wneud cais am Gredyd Pensiwn.




I ddarganfod mwy am Gredyd Pensiwn ewch i www.gov.uk/cymraeg a chwilio am 'Credyd Pensiwn Hawdd i'w Ddarllen'.

Am fwy o wybodaeth am Bensiwn newydd y Wladwriaeth, ewch i www.gov.uk/pensiwn-y-wladwriaeth-newydd

Am help i gynllunio'ch ymddeoliad, ewch i www.gov.uk/plan-for-retirement

Am fwy o wybodaeth am y budd-daliadau y gallech eu cael, ewch i www.gov.uk/browse/disabilities

Gallwch hefyd gael help gyda gwneud cais am fudd-daliadau gan Gyngor ar Bopeth (www.citizensadvice.org.uk/cymraeg) a Age Cymru (www.ageuk.org.uk/cymru)

Am help gyda phroblemau arian, ewch i: www.moneyandpensionsservice.org.uk